**Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon**
Brynglas Drive
Casnewydd
NP20 5QS
Tel/Ffôn: 01633 850804

E-mail/E-Bost: ysgol.gymraegbroteyrnon@newportschools.wales
ysgol.gymraegbroteyrnon@ysgolioncasnewydd.cymru
Gwefan/Website: broteyrnon.cymru

Pennaeth Gweithredol/Executive Headteacher: Mrs Lona Jones-Campbell


*"Ysgol i Esgor Gobeithion"*
*"A Place to Nurture our Aspirations"*

20/09/24

Annwyl Rieni/Warchodwyr,

Hoffwn ddiolch i'r holl blant am gofio llawer o arferion yn ystod eu hwythnos gyntaf yn ôl ac am wneud pob ymdrech i siarad Cymraeg â'u cyfoedion. Nodwch os gwelwch yn dda:

**Cyfle i gyfarfod â'r Athro Dosbarth - 23/9/24 - 3:30 – 5:30 -** Fe fyddwn ni'n cynnal digwyddiad anffurfiol ar ddechrau'r tymor ar y 23/9/24 i roi cyfle i chi gwrdd ag athro'ch plentyn ac ymweld â'r dosbarth. Fe fydd cyfle i chi wirio lle mae gwybodaeth am waith y dosbarth ar Google Classroom. Ar ddiwedd mis Hydref trwy Microsoft Teams, bydd cyfarfod i drafod cynnydd a thargedau eich plentyn. Fe fydd taflen yn cael ei dosbarthu sy'n esbonio ein gweithdrefnau o ran ymgysylltu â rhieni a gwarchodwyr Bro Teyrnon fel y gallwn ni i gyd weithio mewn partneriaeth i gefnogi "Taith Dysgu" eich plentyn / plant. Mi fydd y daflen yn amlygu adegau ar draws y flwyddyn i ganiatáu i hyn ddigwydd. **Cofiwch bod modd i chi gysylltu gyda ni fel ysgol ar unrhyw adeg trwy'r flwyddyn i drafod materion neu bryderon.** Fe fydd y "Siop Swap" gwisg ysgol ar agor yn ystod y noson yn Neuadd yr ysgol.

**Gwisg Ysgol** – Diolch i bawb am sicrhau bod eich plant yn gwisgo'r wisg swyddogol. Braf oedd gweld bod y plant yn defnyddio bagiau sach – **ni chaniateir i'r plant ddefnyddio bag llaw**. Rhaid sicrhau bod pob plentyn yn **gwisgo esgidiau du**. Hoffwn eich hatgoffa ni chaniateir gemwaith dim ond studs. **Cofiwch bod cyflenwad o wisg ysgol ar gael yn yr ysgol – cysylltwch gyda ni os oes angen eitem mae llawer ar gael. Rydyn ni wedi bod yn sortio y stoc yn ein "Siop Swap" Gwisg Ysgol. Os rydych chi'n cael gwared ar hen wisg dewch a nhw i'r ysgol. Fe fydd y bocsys Siop Swap allan ar y noson "Cyfarfod â'r Athro Dosbarth" - 23/9/24**

**Cyfarfodydd Sgiliau -** Fe fyddwn ni'n trefnu cyfarfodydd sgiliau ar gyfer blynyddoedd amrywiol ar draws yr ysgol. Fe fydd hyn yn gyfle i ni gefnogi teuluoedd a phlant Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon. Gweler y rhestr isod. Fe fydd mwy o ddyddiadau am ddigwyddiadau'r tymor i ddilyn wythnos nesaf.

| | |
|---|---|
| **2/10/24** | - **Trwydded Sgiliau – Cyfarfod Derbyn Gwybodaeth Ffoneg – Cynllun Tric a Chlic - Derbyn -** Dosbarth Pwyll - **4:30 – 5:30** |
| **2/10/24** | - **Gweithdy sillafu Nessy** - **rhieni a gwarchodwyr plant Blwyddyn 3**, ac eraill ym mlwyddyn 4, 5 a 6 os nad oeddent yn bresennol ar gyfer nosweithiau blaenorol **3:30 – 4:30** |

**Rheolau'r Safle – Ni chaniateir cŵn, smygu na feipio ar y safle**.

**Clybiau Ar ôl Ysgol – Clybiau Ar ôl Ysgol – Manylion isod. Ffurflenni Cofrestru wedi eu hatodi.**

| | **Clwb Celf** | **Clwb Chwaraeon** | **Clwb Côr** | **Clwb Garddio** |
|---|---|---|---|---|
| **Pryd** | Tachwedd i fis Mawrth | Tachwedd i Fehefin | Tachwedd i fis Mai | *Tymor yr Haf yn unig |
| **Cychwyn** | Grwp cyntaf o blant i gychwyn ar y 5/11/24<br>Sesiwn Grwpiau olaf 18/3/25 | Cychwyn ar y 20/11/24<br>Sesiwn olaf 26/6/25 | Cychwyn ar y 7/11/24<br>Sesiwn olaf 3/4/25 | Cychwyn ar y 28/4/25<br>Sesiwn olaf 27/6/25 |
| **Diwrnod** | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau<br>*Fe fydd ymarferion côr yn cael eu cynnal yn ystod amser cinio hefyd ar gyfer ymarferion ychwanegol pan fydd angen. | Dydd Iau |
| **Amser** | 3:15 – 4:30 | 3:15 – 4:30 | 3:15 – 4:30 | - 3:15 – 4:30 |
| **Grwp Blwyddyn** | Blwyddyn 2 – 6 | Blwyddyn 3 – 6 | Blwyddyn 3 – 6 | Blwyddyn 2 – 4 |

Fe fydd sesiynau hyfforddi timau chwaraeon amrywiol yn cael eu cynnal yn ystod amser cinio pan fyddwn yn cymryd rhan mewn twrnameintiau.

Fe fydd clwb cyfrifiadureg yn cael ei gynnal yn ystod amser cinio ar Ddydd Mawrth.

**Mudiad yr Urdd yn cynnal Clwb Aml Chwaraeon ar gyfer Bl 1,2,3 a 4 ar nos Iau**

**Prydlondeb/Trefniadau Bore Cychwyn - 8:50 –** plant sy'n cerdded neu theithio mewn car i gyrraedd y safle erbyn 8:50 fel eu bod yn y dosbarth erbyn 9:00. **Dydy cyrraedd am 9 ddim yn dderbyniol maent fod yn y dosbarth am 9 o'r gloch yn barod i fwynhau diwrnod o ddysgu gyda'i ffrindiau.**

**Trefniadau Diwedd Dydd – Mae amser addysgu yn gorffen am 3:15 ac fe fyddwn yn rhyddhau y plant cyn gynted a phosib ond mae'n rhaid gwirio bod pawb yn eu lleoliadau cywir cyn ein bod yn agor y gatiau.** Os fe fydd trefniadau diwedd dydd yn newid ar gyfer eich plentyn mae'n hanfodol eich bod yn hysbysu'r swyddfa peth cyntaf yn y bore trwy e-bost neu lythyr (cyn 2:00 man hwyraf) e.e. casglu plant o'r llinell gerdded yn hytrach na mynd ar y bws neu'n hytrach na mynychu Clwb Carco. **Hyd yn oed os rydych chi wedi hysbysu gyrrwyr y bysiau / tacsi a chlybiau carco gofynnwn i chi gysylltu gyda ni hefyd yn uniongyrchol.**

**Byrbryd Iach Amser Chwarae** – Pawb i ddod a byrbryd iachus o adre i fwyta amser egwyl. **Cofiwch mai dim ond un bocs bach sydd angen.** O ran storio byrbryd eich plentyn os maent yn dod a brechdanau o adref gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod byrbryd bore eich plentyn mewn blwch arwahan i'r pecyn cinio oherwydd weithiau mae'r plant yn cymryd cynnwys y pecyn cinio allan yn lle'r byrbryd. **Gan fod unigolion ag alergeddau difrifol oes modd atal rhoi banana, ciwi neu phinafal ym mocsys plant Derbyn, 1 a 2. Diolch yn fawr am eich cydweithrediad.**

**Poteli Dŵr** - Mae'n bwysig cofio mai DŴR yn unig ddylai fod yn y poteli nid "squash" neu sudd.

**Dillad Awyr Agored - Plant Dosbarth Pryderi, Pwyll a Rhiannon -** Anfonwch esgidiau glaw ar gyfer eich plentyn os gwelwch yn dda. Gall rhain gael eu cadw ar y llawr o dan eu pegiau. A fyddech cystal â sicrhau bod enw eich plentyn y tu mewn i bob eitem o ddillad ac esgidiau glaw.

**Absenoldeb o'r Ysgol -** Os nad yw eich plentyn yn gallu mynychu'r ysgol oherwydd salwch neu unrhyw reswm arall, ffoniwch neu ebostiwch yr ysgol erbyn 9:30 i'n hysbysu a danfon llythyr/e-bost o eglurhâd pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol os roeddech chi wedi ein hysbysu ar y ffon. Hoffwn eich atgoffa y dylid parhau i ddefnyddio e-bost yr ysgol (ysgol.gymraegbroteyrnon@ysgolioncasnewydd.cymru / ysgol.gymraegbroteyrnon@newportschools.wales ) i gyfathrebu negeseuon o ddydd i ddydd (salwch a newid i drefniadau diwedd dydd) nid ar Google Classroom. **Cofiwch bod peiriant ateb yn y swyddfa felly gadewch neges gan ein bod yn monitro'r negeseuon trwy gydol y dydd.**

**Gwobrwyo -** Fe fyddwn yn dosbarthu nifer o dystysgrifau gwahanol i'r plant e.e. tystysgrif siarad Cymraeg, tystysgrif am gofio rheolau'r ysgol, tystysgrif dysgwr da pan fyddant wedi ennill 10 seren ar y siart dysgu i ddysgu, bandiau meddylfryd o dwf, tystysgrif seren yr wythnos i unigolyn am ymdrech ar ddiwedd yr wythnos, tystysgrif Seren a Sbarc ar ddiwedd yr wythnos am siarad Cymraeg. Fe fydd y plant hefyd yn derbyn sticer 5 allan o 5 os maent wedi bod yn yr ysgol am yr wythnos gyfan – cadwch lygad allan amdanynt!

**Prosiectau Dosbarth -** Fe fyddwn yn eich hysbysu am brosiectau'r dosbarth ar ardal Google Classroom y dosbarth ac hefyd yn rhannu gwybodaeth trosolwg sgiliau fydd eich plant yn datblygu fesul prosiect. Ni fydd gwaith yn cael ei selio ar thema hir dymor ond ar brosiectau a fydd yn amrywio o ran hyd oherwydd fe fydd hyn yn caniatau i staff addasu yn ôl yr angen a sicrhau bod hyblygrwydd i ymateb i ddigwyddiadau lleol neu fyd eang a mwynhau llyfrau newydd sydd ar gael i ni ddefnyddio ym myd addysg.

**Trefniadau Prydiau Cinio** – Sicrhewch eich bod yn archebu prydiau erbyn 8:30 y bore ac hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi archebu cinio 'mlaen llaw yn ystod yr wythnos ddiwetha. **Oherwydd bod gan rai plant alergeddau sy'n gallu bygwth bywyd, gofynnwn i bob plentyn osgoi dod â chnau yn eu pecynnau bwyd, brechdanau sy'n cynnwys menyn cnau neu menyn siocled cnau. Oes modd osgoi cynnwys banana, pinafal a ciwi ym mhecyn bwyd plant Derbyn, 1 a 2 am yr un rheswm nodir uchod.**

Hoffwn achub ar y cyfle i egluro beth mae'r goruchwylwyr canol dydd/cynoprthwywyr addysgu yn ei wneud i gefnogi'r plant yn ystod yr awr ginio. **Wrth i'r plant ddod fewn i'r neuadd fe fydd y goruchwylwyr yn galw'r plant fesul dosbarth ac opsiynau prydiau ac yn amlygu i staff y gegin pwy sy'n cael pa bryd – rhestr dyddiol ganddynt yn y neuadd. Os na fyddwch chi wedi archebu cinio ar gyfer eich plentyn ar ParentPay fe fyddant yn derbyn y prif bryd cinio poeth fel rhagosodiad.** Byddant yn atgoffa'r plant sut i ymddwyn yn gwrtais yn Bwyty Bro Teyrnon – lefel llais pwrpasol a defnyddio cyllell a fforc i fwyta cinio ysgol. Byddant yn cefnogi gyda glanhau a pharatoi'r byrddau ar gyfer y plant a chlirio'r byrddau. Wrth gerddded o gwmpas y neuadd mae'r goruchwylwyr canol dydd a staff eraill sydd yn y neuadd yn sicrhau bod y plant sy'n cael pecynnau cinio o'r cartref yn bwyta eu brechdanau/wrap/ pasta yn gyntaf cyn iddynt symud ymlaen at eitemau eraill. Yn yr un modd gofynnir i blant sy'n cael cinio ysgol fwyta eu prif bryd, ac yna'r pwdin. Wrth iddynt gerdded o amgylch y neuadd maent yn edrych i wirio bod y plant wedi cael digon i'w fwyta, nad yw'r plant yn rhannu bwyd a'u bod yn dilyn rheolau'r neuadd. Dywedir wrth bob plentyn y dylid rhoi papur lapio a bwyd nad yw'n cael ei fwyta yn ôl ym mocs cinio'r plentyn er mwyn i rieni/gwarcheidwaid allu gweld beth

maent wedi'i fwyta ai peidio. Unrhyw blentyn sydd angen cymorth i agor pecynnau bwyd mae'r oedolion yno i gynorthwyo gyda thasgau o'r fath. Pan fydd angen sylw'r plant maent yn dilyn yr un gweithdrefnau a ddefnyddir yn y dosbarthiadau trwy ddangos 5 ar un llaw a chyfrif i lawr. Maent yn atgoffa'r plant faint o amser sydd ganddynt ar ôl er mwyn sicrhau eu bod wedi bwyta digon o'u cinio cyn dychwelyd i'r dosbarth / iard.

**Pecyn Cinio o Adre** - Mae'r staff ar ddyletswydd yn y neuadd hefyd yn monitro bod y pecyn bwyd yn cynnwys eitemau sy'n cynnig deiet cytbwys. Os oes gennym faterion yn ymwneud â phecynnau bwyd ein protocol yw i'r goruchwylwyr canol dydd hysbysu Mrs Howells yn y swyddfa ac yn dibynnu ar y materion dan sylw, bydd Mrs Howells neu aelod arall o staff yn cysylltu â'r rhieni/gwarcheidwaid. **Ni drafodir hyn gyda'r disgyblion**. Ynghlwm mae taflen cinio iach yr ydym yn dosbarthu'n flynyddol gydag argymhellion.

**Ffrindiau Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon**
Byddwch yn derbyn gwybodaeth gan y Ffrindiau ynglŷn â chyfarfodydd sydd i ddod ond hoffwn eich hysbysu bydd y cyfarfod blynyddol ar yr 17eg o Hydref o 4:30 – 5:30. Cynhelir y disgos fel arfer ar ddydd Iau cyn hanner tymor. Cynhelir Disgo nesaf y Ffrindiau ar nos Iau y 24ain o Hydref. Cadwch y dyddiadau'n rhydd!

Yn ystod yr Haf roedd yna weithredoedd echrydus ac hoffwn nodi ar ran holl gymuned yr ysgol ein bod wedi bod yn meddwl am deuluoedd oedd wedi cael eu effeithio gan y terfysogoedd hiliol ar draws y Deyrnas Unedig. Roeddech chi yn ein meddyliau. Rydyn ni yma i gefnogi'n cymuned ac os allwn ni fod o gymorth peidiwch oedi i gysylltu gyda ni.

Yr eiddoch yn gywir,
**Mrs Lona Jones-Campbell (Pennaeth Gweithredol)**

**Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon**
Bryngias Drive
Casnewydd
NP20 5QS
Tel/Ffôn: 01633 850804

E-mail/E-Bost: ysgol.gymraegbroteyrnon@newportschools.wales
ysgol.gymraegbroteyrnon@ysgolioncasnewydd.cymru
Gwefan/Website: broteyrnon.cymru

Pennaeth Gweithredol/Executive Headteacher: Mrs Lona Jones-Campbell


*"Ysgol i Esgor Gobeithion"*
*"A Place to Nurture our Aspirations"*

20/09/24

Dear Parents/Guardians,

I would like to thank all the children for remembering many routines during their first week back and for making every effort to speak Welsh with their peers. Please note:

**Opportunity to Meet the Class Teacher - 23/9/24 - 3:30 – 5:30** - An informal event will be held at the start of term on the 25/9/23 to give you the opportunity to meet your child's class teacher and visit the class. You will also have the opportunity to be shown where there is information about the class' work on Google Classroom. At the end of October via Microsoft Teams, there will be a meeting to discuss your child's progress and targets. There will be a supplementary leaflet which explains our procedures in terms of engagement with Bro Teyrnon's parents and guardians so that we can all work in partnership to support your child's/children's "Learning Journey". The leaflet will highlight different points throughout the year to allow this to happen. **Please remember that you can contact the school at any time throughout the year to discuss any issues or concerns.** The Uniform "Swap Shop" will be open on the evening in the school hall.

**School Uniform** – Thanks to everyone for ensuring that your children wear the official school uniform. It was lovely to see all the children using rucksacks – **we do not allow the use of handbags**. Please ensure all children wear **black shoes/boots**. I would like to remind you that jewellery is not allowed, only studs. **Remember that a supply of school uniform is available at the school - contact the school if you need an item, there are many available. We have been sorting the stock in our School Uniform "Swap Shop". If you are getting rid of old clothes bring them to school. The Swap Shop boxes will be out on the "Meet the Class Teacher" night - 23/9/24**

**Skills Meetings** - We will be arranging skills meetings for various years across the school. This will be an opportunity for us to support the families and children of Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon. Refer to the list below. There will be more dates for this term's events to follow in a term dates letter to be circulated next week.

**2/10/24 –** **Skills Passport Evening – Phonics Information Evening for Reception Parents (Pwyll Class) – Tric a Chlic Scheme - 4:30 – 5:30pm**

**2/10/24** - **Nessy spelling workshop - parents and carers of Year 3 children,** and others in year 4, 5 and 6 if they were not present for the evening last year **3:30 – 4:30pm**

**Site Rules – No dogs, smoking or vaping is allowed on site.**

**After School Clubs – Details below. Registration Forms attached.**

| | **Art Club** | **Sports Club** | **Choir Club** | **Gardening Club** |
|---|---|---|---|---|
| **When** | November to March | November to June | November to May | *Summer Term Only |
| **Starts** | First group of children to start on the 5/11/24 Sesiwn Grwpiau olaf 18/3/25 | Starts on the 6/11/24 Last session 26/6/25 | Starts on the 20/11/24 Last session 3/4/25 | Starts on the 28/4/25 Last session 27/6/25 |
| **Day** | Tuesday | Wednesday | Thursday *Choir rehearsals will also be held during lunch breaks when needed. | Thursday |
| **Time** | 3:15 – 4:30 | 3:15 – 4:30 | 3:15 – 4:30 | 3:15 – 4:30 |
| **Years Groups that can attend** | Year 2 – 6 | Year 3 – 6 | Year 3 – 6 | Year 2 – 4 |

Various training sessions will be held during lunchtime when we participate in various tournaments.

Computation Club will take place during lunchtime on Tuesdays

**Urdd Movement will hold Multi Sports Club on Thursdays for Year 1,2,3 a 4.**

**Punctuality/Morning Arrangements -** 8:50 - children who walk to school/travel by car need to be on site by 8:50 at the latest so that they are in their classrooms by 9:00. **Arriving at 9 o'clock is not acceptable as the children need to be in their classes by 9 o'clock, ready to enjoy a day of learning with their friends.**

**End of Day Arrangements –** End of day teaching time is 3:15 and we will get the children to the buses and walking line as soon as possible but bear in mind that we must check that children are in the right location before we open the gates. If end of day arrangements change for your child it is important that you inform the office first thing in the morning via e-mail or letter (2:00 at the latest) e.g. collecting a child from the walking line rather than travelling on the bus or rather than going to the After School Club. **Even if you have notified the drivers of the buses/taxis and the after-school clubs we need to be notified first hand.**

**Healthy Play Time Snacks –** Everyone to bring a healthy snack from home to eat at break time. **Remember that only one small box is required**. Regarding storing your child's snack if they bring sandwiches from home we kindly ask you to ensure that your child's morning snack is in a separate box to the lunch pack because sometimes the children take out the contents of the lunch pack instead of just the snack. **As there are individuals with severe allergies, please don't include**

**banana, kiwi or pineapple in Reception, 1 and 2 snack boxes . Thank you very much for your cooperation.**

**Water Bottles -** It's important to remember that it is only WATER that the children should have in their water bottles not squash or juice.

**Outdoor Clothing – Children in Dosbarth Pryderi, Pwyll a Rhiannon -** Please send in wellingtons for your child. These can be kept on the floor beneath their peg. Could you please ensure your child's name is inside every item of clothing as well as the wellingtons.

**Absence From School -** If your child is unable to attend school due to illness or any other reason please phone or email the school by 9:30 in the morning to inform us and send a letter/e-mail of explanation when they return to school if you have contacted us initially via phone. We would like to remind you to continue to use the school's email address (ysgol.gymraegbroteyrnon@ysgolioncasnewydd.cymru/ysgol.gymraegbroteyrnon@newportschools.wales ) to communicate everyday messages (illness and changes to end of day arrangements) not via Google Classroom or the teacher's emails. **Please remember we have an answer phone facility in the office therefore please leave a message as it is monitored throughout the day.**

**Prize Giving -** We will be distributing various certificates to the children e.g. certificate for speaking welsh, certificate for remembering the school rules, certificate for being a good learner when they have 10 stars on the class chart, growth mind-set bands, Star of the week certificates awarded to two children at the end of the week. Children will receive 5 out of 5 stickers to celebrate they've been in school for the whole week. Keep an eye out for them!

**Class Projects -** We will notify you about the class projects on the class' Google Classroom area as well as providing a skills overview of what skills children are developing within each project. Class work will not be based on a termly theme as this will allow the staff to adapt projects as they wish and allow flexibility for them to respond to local and worldwide events along with discovering new books/ texts that become available to us within education

**Lunchtime Arrangements Update -** Ensure you book and pay for school meals on Parent Pay before 8:30am and I would like to thank everyone who booked lunches in advance during last week. **Due to some children having allergies which can life threatening consequences we ask all children to avoid bringing nuts in their packed lunches, sandwiches that contain peanut butter or chocolate nut spread. Is it possible to avoid the inclusion of banana, pin apple and kiwi in the Reception, 1 and 2 children's lunch pack for the same reason noted above.**

I would like to take the opportunity to clarify what the mid-day supervisors/teaching assistants do to support the children during the lunch break. **As the children enter the hall, the supervisors will call the children one class at a time by meal options and highlight to the kitchen staff who gets which meal - a daily list from them in the hall. If you have not ordered a lunch for your child on ParentPay they will receive the main hot lunch meal as a default.** They will remind the children how to behave politely in "Bwyty Bro Teyrnon" (Bro Teyrnon Restaurant) – using appropriate voice level and use a knife and fork to eat school lunch. They will support with cleaning and preparing the tables for the children and clearing the tables. As the mid-day supervisors and other staff in the hall walk around they will ensure that the children who have packed lunches from home eat their

sandwiches /wraps / pasta first before they move onto other items. In the same manner children who have school dinners will be asked to eat their main meal followed by the pudding. As they wal around the hall they visually check that the children have had enough to eat, children are not sharing food and that they are following the hall rules. All children are told that wrappers and food not eaten are to be placed back in the child's lunch box in order for parents/guardians are able to see what they've consumed or not. Any child who needs support to open food packaging the adults are there to assist with such tasks. When they need the children's attention they follow the same procedures as used in the classrooms by showing 5 on one hand and counting down. They remind the children how much time they have left in order to ensure they have consumed enough of their lunch before returning to class / yard.

**Packed Lunches** –The staff on duty in the hall also monitor that the items within the packed lunch provide a balanced diet. If we do have issues relating to packed lunches our protocol is for the midday supervisors to inform Mrs Howells in the office and depending on the issues, Mrs Howells or another member of staff will contact the parents/guardians. **This will not be dealt with via the pupil**. Attached is a healthy lunch leaflet which we have circulated previously with recommendations.

**Ffrindiau Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon**
You will receive information from the Ffrindiau regarding up and coming meetings but I would like to notify you that Annual general Meeting will be held on the 17th of October from 4:30 – 5:30. The school discos are usually held on a Thursday before half term. **The next Ffrindiau Disco will be held on Thursday evening the 24th of October. Keep these dates free!**

During the Summer there were appalling events and on behalf of the whole school community we have been thinking of families who were affected by the racist riots across the United Kingdom. You were all in our thoughts. We are here to support our community and if we can be of assistance please do not hesitate to contact us.

Yours Sincerely
**Mrs Lona Jones-Campbell (Executive Head Teacher)**